Sefwch gyda'ch gilydd dros gyflogau gwell

TÂL GWEITHIWR YSGOL A CHYNGOR 2024

UNISON
Cymru Wales

Mae angen codiad cyflog teilwng ar aelodau UNSAIN sy'n gweithio mewn cynghorau ac ysgolion. Mae eich llwyth gwaith wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i doriadau yn y gyllideb, ac mae eich sefyllfa ariannol bersonol wedi dioddef ergyd ddifrifol o ganlyniad i'r argyfwng costau byw. Mae gwerth cyflogau llywodraeth leol wedi gostwng 25% ers 2010, sy'n golygu bod pob ceiniog yn fwy gwerthfawr nag erioed.

Mae UNSAIN yn ymgyrchu dros godiad cyflog teg i weithwyr cynghorau ac ysgolion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym wedi cyflwyno hawliad cyflog sy'n galw am godiad cyflog o £3,000 neu 10%, pa un bynnag sydd uchaf yn eich amgylchiadau unigol chi. Byddai cynnydd cyfradd safonol yn cael ei gyfrifo pro rata ar gyfer gweithwyr rhan-amser a'r rheini sy'n gweithio yn ystod y tymor yn unig. Rydym hefyd yn gofyn am roi isafswm cyflog o £15 yr awr ar waith dros y ddwy flynedd nesaf, fel gwarant ychwanegol yn erbyn cyflogau isel.

Mae cynnig cyflog teilwng yn hanfodol a dim ond drwy sefyll gyda'n gilydd y gwnawn ni anfon neges glir at gyflogwyr eich bod yn haeddu mwy.

Dyma 3 enghraifft o bethau syml a hawdd y gallwch chi eu gwneud heddiw:

1) Gwirio a diweddaru eich data

Mae mor bwysig eich bod yn cadw eich gwybodaeth gyswllt yn gyfredol – fel arall, ni allwn gysylltu â chi gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am eich cyflog. Treuliwch 5 munud yn gwirio pa fanylion sydd gennym ni yn barod gan ddefnyddio MyUNISON – www.unison.org.uk/my-unison

2) Cysylltu â'ch cynghorydd

Mae gan gynghorwyr lleol y pŵer i godi'r mater hwn yn uniongyrchol gyda chyflogwyr llywodraeth leol, felly mae angen eich help arnom i'w perswadio i ddefnyddio eu dylanwad a chefnogi codiad cyflog teilwng i weithwyr cynghorau ac ysgolion. Mae gennym e-bost parod i'w anfon y gallwch ei ddefnyddio sy'n cynnwys cynnig enghreifftiol: https://action.unison.org.uk/page/145600/action/1

3) Taro golwg ar ein map rhyngweithiol

Mae'r diffygion cyllido difrifol mewn cynghorau lleol yn fwy amlwg nag erioed. Mae arnom angen cymorth ariannol priodol gan y llywodraeth ganolog i fuddsoddi mewn gwasanaethau hanfodol a galluogi'r codiad cyflog teilwng y mae gweithwyr cynghorau ac ysgolion yn ei haeddu. A fyddech cystal â lobïo eich AS drwy glicio ar ein map rhyngweithiol i weld y bwlch yng nghyllideb eich cyngor ac anfon e-bost ein hymgyrch atynt: https://councilcuts.unison.org.uk/data-visualisation/p/1

Mae angen i bob un ohonom chwarae ein rhan
a sefyll gyda'n gilydd dros gyflogau gwell.
Mae rhagor o wybodaeth am ein hymgyrch ar gael yn:
www.unison.org.uk/LGpay

Published by UNISON, 130 Euston Road, London NW1 2AY

CU / March 2024 / 298 / 4582